Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc

**yng**

**Nghyngor Sir Ddinbych**
**Neuadd y Sir**
**Ffordd Wynnstay**
**Rhuthun**
**LL15 1YN**

**Ionawr/Chwefror 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i allu i wella.

Yn yr arfarniadau hyn, rydym yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

**Rhagorol**
**Da**
**Digonol**
**Anfoddhaol**

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**



**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

# Cyd-destun

### Cyd-destun

Mae Sir Ddinbych yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Mae'n ffinio â Wrecsam a Sir y Fflint i'r dwyrain, Conwy a Gwynedd i'r gorllewin a Phowys i'r de. Cyfanswm y boblogaeth yw 96,731.

Yn Sir Ddinbych, mae 30.4% o bobl dros dair oed yn dweud eu bod yn medru'r Gymraeg o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 24.8%.

Y gyfradd cyflogaeth yn Sir Ddinbych yw 67.6%, o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 66.4%. Mae un deg pump y cant o blant yn byw mewn cartrefi di-waith. O'r boblogaeth sy'n gweithio yn Sir Ddinbych, nid oes gan 11.8% unrhyw gymwysterau, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 13.7%.

Mae 18.9% o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r ffigur cenedlaethol, sef 19.7%. Y lefel hon o gymhwyster yw'r 13eg isaf yng Nghymru o gymharu ag awdurdodau lleol eraill, lle ystyrir mai'r cyntaf yw'r ffigur isaf o ran prydau ysgol am ddim a 22 yw'r uchaf (CYBLD 2011). Dim ond 10 o'r 58 ardal yn Sir Ddinbych sydd yn awr ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Ar 31 Mawrth 2010, roedd 175 o blant yn Sir Ddinbych yn cael gofal gan yr awdurdod. Roedd 75 o blant ar y gofrestr Amddiffyn Plant.

Mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 1.7% o'r boblogaeth, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 3.6%

### Cyd-destun ariannol

Yn 2011-12, Asesiad Gwariant Safonol (AGS)[1] Llywodraeth Cymru i bob pen o'r boblogaeth ar gyfer Sir Ddinbych oedd £1,785, sef y chweched uchaf yng Nghymru, ac mae hyn yn adlewyrchu cynnydd parhaus o gymharu â'r cyfartaledd. Gosododd y cyngor ei gyllideb refeniw cyffredinol ar 101.6% o'r AGS sy'n adlewyrchu'r lefel uwchlaw'r cyfartaledd o Dreth y Cyngor.

Gosododd y cyngor y gyllideb addysg ar lefel o 100.8% o'r gydran addysg dybiannol yn yr AGS. Yn sgil hyn, cynhyrchwyd cyllideb addysg heb grantiau o £4,870 fesul disgybl, sydd ychydig uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef £4,791. Gostyngodd y gyllideb addysg net 2.9% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac roedd hynny'n cymharu â gostyngiad cyfartalog Cymru o 0.4%.

Mae ffigurau Llywodraeth Cymru yn dangos bod yr awdurdod yn dirprwyo 79.1% o'r gyllideb sydd ar gael i ysgolion. Mae hyn uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 76.2% a'r trydydd uchaf, er bod y lefel uchel o incwm a gafwyd gan awdurdodau lleol eraill ar gyfer addysgu disgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig yn ysgolion Sir Ddinbych yn tueddu i chwyddo'r gyfradd ddirprwyo a adroddwyd.

[1] AGS yw'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn dosbarthu Grant Cymorth Refeniw i awdurdodau lleol.

Mae'r cyllidebau dirprwyedig cyfartalog o £3,868 fesul disgybl mewn ysgolion cynradd a £4,315 fesul disgybl mewn ysgolion uwchradd, yn cynnwys grantiau, ychydig uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef £3,821 fesul disgybl ar gyfer ysgolion cynradd a £4,272 fesul disgybl ar gyfer ysgolion uwchradd.

Cyfanswm y gyllideb ar gyfer addysg gynradd yw £4,387 fesul disgybl ysgol gynradd, sydd ychydig islaw'r cyfartaledd ledled Cymru, sef £4,452. Yn yr un modd, y gyllideb ysgolion uwchradd, yn cynnwys costau annirprwyedig, yw £4,626 y disgybl, sydd ychydig islaw cyfartaledd Cymru, sef £4,752.

## Crynodeb

**Barn gyffredinol: Da**

**Mae perfformiad presennol yn dda oherwydd:**

- bod perfformiad wedi gwella ym mhob cyfnod allweddol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4;
- bod perfformiad wedi gwella yn erbyn meincnodau disgwyliedig Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar hawl i brydau ysgol am ddim;
- bod presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn dda ac yn cymharu'n dda â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg mewn mannau eraill;
- bod nifer y gwaharddiadau wedi gostwng ac oherwydd mai'r nifer gyffredinol o ddiwrnodau a gollwyd yn sgil gwaharddiadau yw'r isaf yng Nghymru;
- bod yr awdurdod wedi gwneud trefniadau da iawn i gefnogi a herio ysgolion ac yn adnabod ei ysgolion yn dda iawn;
- bod y cymorth ar gyfer gwella ysgolion, anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant cymdeithasol i gyd yn dda;
- bod nifer ysgolion Sir Ddinbych y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt ar ôl arolygiad ymhlith yr isaf yng Nghymru;
- bod yr awdurdod wedi gwneud cynnydd da yn cyflawni ei raglen Moderneiddio Addysg;
- bod y diwylliant o arweinyddiaeth gref iawn gan aelodau etholedig ac uwch swyddogion wedi ysgogi newid a gwelliant sylweddol ar gyflymder da; a
- bod gwerth da am arian mewn gwasanaethau addysg.

Fodd bynnag:

- ni chaiff asesiadau athrawon o'r pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 3 eu safoni'n ddigon manwl i wneud yn siŵr eu bod yn adlewyrchu safonau dysgwyr yn gywir.

**Gallu i wella: Da**

**Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd**:

- bod arweinyddiaeth effeithiol a chydlynus gan uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn cydweithio eisoes wedi ysgogi newid a gwelliant sylweddol mewn gwasanaethau addysg ac mewn deilliannau i ddysgwyr;
- bod data perfformiad yn cael ei ddefnyddio'n drylwyr i arfarnu ansawdd ac effaith gwasanaethau, nodi tanberfformio a chynllunio ar gyfer gwella;
- bod diwylliant o atebolrwydd ac adolygu parhaus, gyda ffocws cyson ar gyflawni cynnydd yn erbyn blaenoriaethau, wedi cael ei ymgorffori'n gadarn ar draws gwasanaethau'r awdurdod;
- bod trefniadau craffu yn hynod effeithiol o ran herio tanberfformio a dwyn swyddogion ac ysgolion i gyfrif;
- bod blaenoriaethau ar gyfer addysg a thargedau dyheadol wedi'u cysylltu'n glir trwy gynlluniau strategol a gweithredol; a

- bod yr awdurdod eisoes wedi sicrhau arbedion effeithlonrwydd sylweddol ac wedi canolbwyntio adnoddau ar ei flaenoriaethau allweddol.

Fodd bynnag:

- nid yw'r awdurdod yn casglu a dadansoddi digon o ddata i fesur ac arfarnu perfformiad gwaith partneriaeth ar y cyd.

## Argymhellion

Er mwyn parhau i wella, mae angen i Gyngor Sir Ddinbych:

A1 wella cywirdeb asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 3; a

A2 nodi'r holl wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych a sefydlu system effeithiol i fesur effaith y gwasanaethau hyn i helpu'r awdurdod a'i bartneriaid i wybod a yw'r rhain yn cynnig gwerth da am arian.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn o fewn 70 diwrnod (50 diwrnod gwaith) o dderbyn yr adroddiad.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? Da

**Safonau: Da**

Yn Sir Ddinbych, mae lefelau prydau ysgol am ddim a mesurau amddifadedd eraill wedi cynyddu'n gyflymach nag y maent ledled Cymru yn y tair blynedd diwethaf. Er gwaethaf hyn, mae perfformiad hefyd wedi gwella'n gyflymach nag y mae ledled Cymru yng nghyfnodau allweddol 2 a 4 fel ei gilydd yn ystod y cyfnod hwn. Fe wnaeth perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 gadw i fyny â pherfformiad ledled Cymru tan 2010, ond gwella'n arafach a wnaeth yn 2011. Yn 2011, roedd canrannau'r dysgwyr sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnodau allweddol 2 a 4 uwchlaw cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan. Mae hyn yn cymharu'n well ag awdurdodau eraill nag y gellid ei ddisgwyl pan ystyrir gwybodaeth gyd-destunol. Fodd bynnag, yng nghyfnodau allweddol 1 a 3, disgynnodd perfformiad islaw cyfartaleddau Cymru.

O gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg ar y meincnodau prydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yn 2011 ymhell uwchlaw'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 2 ac islaw'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 3. Bu gwelliant sylweddol mewn perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn 2011 ac roedd yn dda. Ar y rhan fwyaf o ddangosyddion, mae mwy o ysgolion na'r cyfartaledd yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg, a llai na'r disgwyl yn y 25% isaf. Ar un o'r pum prif ddangosydd, mae hanner ysgolion yr awdurdod yn y 25% uchaf.

Mae perfformiad Sir Ddinbych yn erbyn meincnodau Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad ar sail yr hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf. Mae data dros dro yn awgrymu y gwnaeth yr awdurdod ragori ar y ddau feincnod ar gyfer cyfnod allweddol 4 yn 2011.

At ei gilydd, mae cynnydd da rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd.

Yn 2011, roedd y bwlch mewn perfformiad ar y dangosydd pwnc craidd rhwng bechgyn a merched yn llai na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ym mhob cyfnod allweddol. Mae grwpiau penodol o ddysgwyr, yn cynnwys grwpiau bregus a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyflawni eu lefelau disgwyliedig ar y cyfan. Mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da yn ennill medrau mewn Cymraeg mamiaith ac ail iaith, ac yn cyflawni safonau da yn y ddau bwnc ar y cyfan.

Bu gwelliant yng nghanran y dysgwyr sy'n gadael yr ysgol gynradd gyda llythrennedd gweithredol yn 2011 ac mae'n well na'r cyfartaledd ledled Cymru. Mae dysgwyr sy'n cael cymorth i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd yn gwneud cynnydd da ac mae llawer ohonynt yn cynnal y gwelliant hwn hyd at ddiwedd y cyfnod allweddol.

Yn 2010, bu gwelliant yng nghanran y dysgwyr sy'n gadael addysg amser llawn heb unrhyw gymhwyster cydnabyddedig ac mae'n debyg i gyfartaledd Cymru. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Ieuenctid yn gwneud cynnydd cyson ac yn ennill cymwysterau anffurfiol priodol ar draws ystod o feysydd.

**Lles: Da**

Mae safonau lles yn dda ar y cyfan.

Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan yn dda mewn ystod o raglenni sy'n hyrwyddo eu hiechyd a'u lles. Maent yn cymryd rhan gynyddol mewn gweithgareddau chwaraeon ac mae eu lefelau cyfranogiad yn cymharu'n dda â lefelau dysgwyr mewn awdurdodau eraill. Mae dysgwyr yn datblygu strategaethau a medrau i'w helpu i gadw'n ddiogel trwy fentrau llwyddiannus sy'n eu helpu i ddeall manteision bwyta'n iach, risgiau ysmygu a'r angen am ddiogelwch ar y ffordd. Mae'r rhaglenni hyn yn eu galluogi i wella eu gwybodaeth a datblygu agweddau a chredoau priodol.

Mae presenoldeb yn dda ac wedi gwella. O gymharu ag ysgolion tebyg ar y meincnodau prydau ysgol am ddim, mae tua dwy o bob tair ysgol gynradd yn y 25% uchaf. Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn dda hefyd. O gymharu ag ysgolion tebyg, mae dros 60% ohonynt uwchlaw'r cyfartaledd.

Ychydig iawn o waharddiadau parhaol a geir. Mae'r gyfradd gwaharddiadau byrrach wedi bod ymhlith yr uchaf yng Nghymru er bod data heb ei wirio yn awgrymu i'r gyfradd ostwng yn sylweddol yn 2011. Y nifer o ddiwrnodau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau yw'r lleiaf yng Nghymru.

Mae canran y dysgwyr ym Mlwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'n well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Fe wnaeth canran y dysgwyr sy'n parhau mewn addysg amser llawn wella yn 2010 ac mae'n well na chyfartaledd Cymru hefyd.

Mae plant a phobl ifanc yn cyfrannu'n dda at ddatblygu cynllunio gwasanaethau a pholisi. Maent yn defnyddio ystod dda o brosesau ffurfiol a digwyddiadau penodol yn dda i ddylanwadu ar y penderfyniadau a wneir.

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? Da

**Cymorth ar gyfer gwella ysgolion: Da**

Mae'r cymorth ar gyfer gwella ysgolion wedi gwella'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf. Mae gwasanaethau gwella ysgolion a chynhwysiant yr awdurdod wedi cael eu hailstrwythuro'n ddiweddar o dan un pennaeth gwasanaeth. Mae'r ailstrwythuro hwn wedi cryfhau'r cydweithio rhwng swyddogion yn yr awdurdod yn sylweddol ac mae'n helpu gwella cyflawniad pob dysgwr.

Mae gan yr awdurdod drefniadau da iawn i gefnogi a herio ysgolion, ac mae'n adnabod ei ysgolion yn dda iawn. Caiff data ei ddadansoddi'n drylwyr a'i ddefnyddio'n effeithiol i herio cynnydd a thargedu ymyriadau. Mae swyddogion yn arfarnu ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth mewn ysgolion yn drylwyr ac yn cymharu'r rhain ag arfarniadau'r penaethiaid eu hunain. O ganlyniad, mae trylwyredd a chysondeb her swyddogion ac aelodau i arweinwyr a rheolwyr mewn ysgolion yn cyfrannu'n dda at wella safonau. Mae her yn nodwedd gref iawn o waith yr awdurdod. Adeg arolygiad yr awdurdod, mae nifer ysgolion Sir Ddinbych y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt ar ôl arolygiad ymhlith yr isaf yng Nghymru.

Mae'r awdurdod wedi adolygu ei Gytundeb Partneriaeth gydag ysgolion. Mae'r Cytundeb yn amlinellu meini prawf clir i ddiffinio lefel briodol o gymorth ac ymyrraeth. Mae gweithdrefnau da yn bodoli hefyd i nodi meysydd risg penodol ac ymateb yn effeithiol iddynt. O ganlyniad, mae swyddogion yn mynd ati'n gywir i nodi ysgolion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, sy'n arwain at welliant cyson mewn safonau. Eir i'r afael â gwendidau systematig mewn arweinyddiaeth a rheolaeth ysgolion yn effeithiol i wneud yn siŵr bod ysgolion yn gwella'n ddigon cyflym.

Mae gan yr awdurdod ystod effeithiol o fentrau sy'n canolbwyntio ar godi safonau mewn meysydd blaenoriaeth fel llythrennedd. Mae'r ymyriadau hyn ar gyfer grwpiau targedig o ddysgwyr yn llwyddiannus o ran gwella llythrennedd gweithredol dysgwyr. Mae ymyriadau i godi safonau mewn rhifedd yn cael effaith gadarnhaol hefyd. Fodd bynnag, ni chaiff asesiadau athrawon yn y pynciau craidd ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 eu safoni'n ddigon cyson rhwng ysgolion i wneud yn siŵr eu bod yn adlewyrchu cyflawniad disgyblion yn gywir.

Mae'r awdurdod yn rhoi blaenoriaeth uchel i wella arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel yn ei ysgolion. Mae rhaglenni hyfforddi, grwpiau rhwydwaith a chymorth arall ar gyfer uwch arweinwyr, rheolwyr canol a llywodraethwyr wedi sicrhau gwelliannau adnabyddadwy. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth well erbyn hyn o sut i ddefnyddio'r setiau data craidd i arfarnu a herio perfformiad ysgolion.

**Cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol: Da**

Mae prosesau statudol yn Sir Ddinbych yn effeithiol. Mae systemau trylwyr ar gyfer safoni ceisiadau am gymorth ychwanegol wedi arwain at ostyngiad yn nifer y datganiadau o anghenion addysgol arbennig a gyflwynir. Mae perthnasoedd a chyfathrebu da gyda rhieni ac ysgolion yn helpu cadw nifer y cyfeiriadau i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn gyson isel, gydag un apêl yn unig wedi'i chaniatáu er 2009.

Mae'r awdurdod yn addysgu ychydig dros hanner o'r dysgwyr sydd â datganiadau mewn ysgolion prif ffrwd, gyda'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn mynychu dosbarthiadau prif ffrwd gyda'u cyfoedion. Mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn cael eu haddysgu'n agos at eu cartref eu hunain. Ychydig iawn o ddysgwyr sy'n mynychu ysgolion arbennig annibynnol, sy'n galluogi'r awdurdod i wario bron yr holl gyllideb anghenion addysgol arbennig ar ddysgwyr yn ei ysgolion ei hun.

Mae Gwasanaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant Sir Ddinbych yn cynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn modd cydlynol. Caiff gwasanaethau eu cydlynu i sicrhau bod disgyblion yn elwa ar y gwasanaethau a ddarperir. Mae'r awdurdod yn cadw cofnodion gofalus o gynnydd pob disgybl, er nad yw gwaith i fonitro effaith y gwasanaeth ar berfformiad disgyblion yn gwbl aeddfed eto.

Mae cydweithio da ag asiantaethau partner yn darparu nodi, asesu ac ymyrraeth gynnar briodol, yn enwedig yn y sector cyn-ysgol a'r blynyddoedd cynnar. Mae cynllunio effeithiol ar gyfer lleoli disgyblion mewn ysgol, yn cynnwys cymorth â hyfforddiant da, yn helpu disgyblion i ymgynefino'n ddidrafferth yn yr ysgol.

Mae gan yr awdurdod hanes da o ddarparu ystod gynhwysfawr o hyfforddiant addas. Mae'n ymateb yn dda i geisiadau gan ysgolion am gyngor a chymorth arbenigol. Mae hyn wedi datblygu gallu ysgolion i fodloni ystod ehangach o anghenion disgyblion. Fodd bynnag, nid yw pob ysgol yn gwneud y defnydd gorau o'r arbenigedd y maent wedi'i ddatblygu.

Mae gwasanaethau allymestyn gwerth chweil o'r ysgolion arbennig yn helpu cynnal disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd ar draws cyfnodau allweddol. Mae'r gwasanaethau hyn yn adeiladu ar lwyddiant gwaith cynharach a gefnogir gan grant gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ysgolion yn dechrau gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu fframwaith cyson ar gyfer arfarnu llwyddiant y ddarpariaeth hon, ar sail y Fframwaith Sicrhau Ansawdd a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae arfarniad cywir o effaith y gwasanaethau yn helpu'r awdurdod i nodi'r ffordd orau o ganolbwyntio ar gymorth ychwanegol. Ar sail yr arfarniad hwn a'r hyfforddiant achrededig effeithiol ar gyfer staff cymorth ac athrawon mewn ysgolion prif ffrwd, mae'r awdurdod wedi gallu cau dwy ddarpariaeth ag adnoddau ac mae bellach yn darparu gwasanaethau iaith a lleferydd i ddisgyblion eu mynychu yn eu hysgolion prif ffrwd lleol.

**Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles: Da**

Mae'r awdurdod wedi rhoi ystod o strategaethau priodol ar waith sydd wedi gwella ymddygiad, agweddau a phresenoldeb dysgwyr. Mae mentrau priodol i wneud yn siŵr bod yr holl bobl ifanc yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd, yn cynnwys gofalwyr ifanc a rhieni ifanc. Mae swyddogion yn casglu ac yn dadansoddi data ar bresenoldeb yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i dargedu cymorth lle mae ei angen. Mae'r awdurdod yn gweithio'n dda gyda'i ysgolion i reoli disgyblion ag ymddygiad heriol ac mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn nifer y diwrnodau a gollir trwy waharddiadau. Mae'r awdurdod yn defnyddio ei bwerau cyfreithiol yn dda i erlyn rhieni os bydd angen er mwyn gwella presenoldeb disgyblion.

Mae swyddogion yn cefnogi ysgolion yn dda i ddatblygu polisïau priodol i fynd i'r afael â bwlio a chodi ymwybyddiaeth o bob math o fwlio seiber. Fodd bynnag, nid oes gan yr awdurdod systemau cadarn i gasglu data ar fwlio er mwyn arfarnu effeithiolrwydd ei gymorth i ysgolion.

Mae'r awdurdod yn rhoi ystod o gymorth priodol i ddisgyblion bregus. Mae hyn yn cynnwys y cynllun Darpariaeth Addysg yn y Coleg lle mae disgyblion Blwyddyn 11 yn dilyn rhaglenni galwedigaethol mewn colegau lleol. Mae'r strategaethau hyn wedi cyfrannu at leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn Sir Ddinbych.

Mae'r awdurdod yn bodloni ei ddyletswyddau statudol o ran plant sy'n cael gofal yn dda. Mae'n gweithio'n dda gydag asiantaethau eraill i wneud yn siŵr bod plant sy'n cael gofal yn cyflawni'n dda iawn ac yn parhau â'u haddysg a'u hyfforddiant ar ôl gadael yr ysgol.

Mae gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol wedi ail-alinio ei flaenoriaethau a'i adnoddau yn effeithiol i ddarparu gwasanaethau, cyfleoedd, cymorth personol a

deilliannau gwell ar gyfer dysgwyr. Mae gan y gwasanaeth a'i bartneriaid rôl flaenllaw mewn datblygu gwasanaethau cymorth ieuenctid ar draws yr awdurdod.

Mae gan yr awdurdod bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i ddiogelu dysgwyr. Yn ychwanegol, trwy'r bwrdd lleol ar gyfer diogelu plant a phartneriaethau eraill, mae'r awdurdod yn gwneud yn siŵr fod y partneriaid sy'n darparu gwasanaethau ar ei ran wedi rhoi gweithdrefnau effeithiol ar waith hefyd.

**Mynediad a lleoedd ysgol: Da**

Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da yn cyflwyno ei raglenni Moderneiddio Addysg. Mae wedi cytuno ar fframwaith priodol ar gyfer ad-drefnu ysgolion ac mae'n cyflwyno'r fframwaith hwn trwy broses effeithiol o adolygiadau ardal. Mae'r awdurdod eisoes wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'i flaenoriaethau diffiniedig i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a lleihau nifer y lleoedd dros ben.

Mae swyddogion yn diweddaru arolygon rheoli asedau yn gyson ac yn defnyddio'r rhain i flaenoriaethu gwaith cynnal a chadw. Mae'r awdurdod mewn sefyllfa dda i gyflwyno ei gynlluniau ar gyfer ysgolion yn yr unfed ganrif ar hugain.

Mae derbyniadau canolog yn darparu gwybodaeth dda ar gyfer rhieni. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n arbennig o dda gydag ysgolion a gwasanaethau eraill i wneud yn siŵr bod disgyblion bregus yn cael eu cynorthwyo i ailintegreiddio'n brydlon.

Mae adolygiad trylwyr o wasanaethau wedi gwella gallu'r awdurdod i wneud yn siŵr bod digon o ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar ar gael ledled y sir. Mae'r awdurdod wedi gwneud defnydd da o leoedd dros ben mewn ysgolion i sicrhau bod lle i ddarpariaeth Dechrau'n Deg. Mae'r cydweithio â phartneriaid yn dda erbyn hyn ac yn parhau i wella, ac mae swyddogion yn monitro ac yn arfarnu gwaith pob darparwr yn systematig. Mae'r awdurdod wedi arfarnu ei ystod o ddarpariaeth chwarae yn gadarn.

Mae gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod yn arwain gwaith gyda phartneriaid perthnasol sy'n gweithio mewn ardaloedd lleol i wella mynediad i ystod o wasanaethau cymorth ieuenctid.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? Da**

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae aelodau etholedig ac uwch swyddogion yn Sir Ddinbych yn rhoi blaenoriaeth uchel i wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae ganddynt weledigaeth glir a dyheadau uchel ar gyfer yr awdurdod ac yn cyfleu'r rhain yn dda iawn. Mae'r arweinyddiaeth gydlynus ac effeithiol yn golygu bod agwedd y cyngor at ddod yn 'gyngor sy'n perfformio'n uchel, yn agosach at y gymuned' eisoes yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Mae'r cyngor wedi ad-drefnu ei drefniadau craffu yn dri phwyllgor ar gyfer partneriaethau, cymunedau a pherfformiad ac mae pob gwasanaeth yn adrodd am

wahanol agweddau ar eu gwaith i'r pwyllgor perthnasol. O ganlyniad, mae gan aelodau craffu drosolwg gwell ar draws y cyngor cyfan ac mae ystod ehangach o aelodau yn deall materion addysg. Gall aelodau yn awr gymharu a herio gwasanaethau'n fwy effeithiol a gwneud penderfyniadau mwy gwybodus. Yn ychwanegol, mae ymglymiad ar draws y pleidiau yn y broses graffu yn golygu y gall pob aelod weithio tuag at nod cyffredin i wella gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae partneriaid yn y bwrdd gwasanaethau lleol hefyd yn craffu ar eu cyfraniadau at gyflawni deilliannau mewn cynlluniau partneriaeth.

Adlewyrchir y newidiadau trawndewidiol ar lefel aelod yn y Tîm Gweithredol Corfforaethol, lle mae gan dri chyfarwyddwr corfforaethol gyfrifoldebau ar draws yr awdurdod cyfan. Maent yn rheoli grŵp o benaethiaid gwasanaeth ond nid oes ganddynt gyfarwyddiaethau. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth well o'r holl flaenoriaethau corfforaethol. Mae hyn yn arwain at gydweithio pwrpasol ac effeithiol rhwng gwasanaethau. Caiff blaenoriaethau ar gyfer addysg eu cyflwyno'n gyson ar draws meysydd gwasanaeth gyda chysylltiadau clir rhwng cynlluniau strategol a chynlluniau gweithredol. Mae swyddogion yn gosod targedau dyheadol priodol i wella deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae'r trawsnewid hwn yn y ffordd y mae'r awdurdod yn gweithio wedi rhoi mwy o ffocws i flaenoriaethau strategol corfforaethol ac wedi goresgyn seilos gwasanaeth blaenorol. Mae'r newidiadau yn niwylliant ac arweinyddiaeth yr awdurdod, ynghyd ag arweinyddiaeth gref iawn gan aelodau etholedig ac uwch swyddogion, wedi ysgogi newid sylweddol a gwelliant parhaus yn gyflym. Mae hyn wedi galluogi'r awdurdod i wella'n dda iawn o fethiannau a nodwyd yn ystod arolygiadau blaenorol. Mae hyn yn arfer sy'n arwain y sector.

Mae gan aelodau ac uwch swyddogion hanes da o wneud penderfyniadau anodd er mwyn gwella'r ddarpariaeth i ddysgwyr. Mae diwylliant o dryloywder a didwylledd yn yr awdurdod lleol ac mae hyn wedi arwain at berthnasoedd rhagorol rhwng aelodau a swyddogion, a gyda phartneriaid allanol.

Mae gan yr awdurdod lleol berthnasoedd aeddfed gyda'i ysgolion. Mae'r perthnasoedd gyda phenaethiaid wedi gwella'n sylweddol ers arolygiadau blaenorol ac mae'r awdurdod yn ymgynghori'n dda â'i ysgolion. Mae'r Grŵp Monitro Safonau Ysgolion, sy'n cynnwys aelodau a swyddogion, yn cynnig cymorth a her effeithiol i benaethiaid a chyrff llywodraethol. Maent yn gwneud cyfraniad cryf at wella arweinyddiaeth, darpariaeth a safonau mewn ysgolion.

Mae'r awdurdod wedi cymryd yr arferion llwyddiannus a ddatblygwyd yn lleol ac mae'n rhannu arfer dda y tu hwnt i'w ffiniau.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r awdurdod wedi ymgorffori hunanarfarnu yn gadarn ar draws ei wasanaethau. Mae diwylliant o atebolrwydd ac adolygu parhaus a ffocws cyson ar gyflawni cynnydd yn erbyn blaenoriaethau. Mae gan yr awdurdod fframwaith arfarnu cadarn, yn cynnwys heriau perfformiad ddwywaith y flwyddyn gan aelodau etholedig ac uwch swyddogion allweddol sy'n cysylltu â chynllunio gwelliant a gosod targedau heriol. Adroddir am berfformiad yn dda i aelodau etholedig ac mae gan yr awdurdod

ddiwylliant agored lle caiff meysydd i'w gwella eu cydnabod, ac eir i'r afael â nhw. Mae gan aelodau etholedig ac uwch swyddogion ddealltwriaeth dda o'r cryfderau a'r diffygion mewn meysydd gwasanaeth ac yn herio swyddogion yn gadarn i ysgogi gwelliant. O ganlyniad, er enghraifft, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn ysgolion uwchradd Sir Ddinbych a phresenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd i gyd wedi gwella.

Mae'r awdurdod yn ymgynghori'n dda â phlant a phobl ifanc a'r gymuned ehangach. Mae wedi comisiynu cyfres o adroddiadau annibynnol defnyddiol i arfarnu ansawdd ei waith gyda phartneriaid. Caiff data perfformiad ei ddefnyddio'n gadarn i arfarnu ansawdd ac effaith gwasanaethau, nodi tanberfformio a chynllunio ar gyfer gwella. Caiff mentrau eu harfarnu'n systematig gan ddefnyddio tystiolaeth uniongyrchol a data perfformiad. Ar hyn o bryd, nid yw'r awdurdod yn casglu ac yn dadansoddi digon o ddata perthnasol i fesur perfformiad yn llawn ar draws pob partner, er bod datblygu'r gronfa ddata hon wedi'i gynnwys yn y blaenoriaethau ar gyfer ei gynllun sengl presennol.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol wrth ysgogi gwelliant ac mae gan staff dargedau yn gysylltiedig â pherfformiad sydd wedi'u cysylltu'n glir â blaenoriaethau strategol.

Mae swyddogion yn mynd ati'n dda i herio ysgolion sy'n tanberfformio ac mae'r awdurdod yn fodlon defnyddio'i ystod lawn o bwerau statudol i ysgogi gwelliant lle mae angen. Ni nodwyd bod yr un ysgol mewn categori pryder yn ystod arolygiad Estyn am y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae'r awdurdod wedi mynd i'r afael yn dda â llawer o'r argymhellion o arolygiadau blaenorol Estyn o wasanaethau addysg a chymorth ieuenctid. Mae gwaith parhaus i fodloni argymhellion eraill yn llawn yn gam allweddol yn Y Cynllun Mawr.

Mae'r awdurdod wedi sefydlu ystod dda o gymunedau dysgu proffesiynol i rannu arfer dda a chodi safonau. Mae llawer o'r cymunedau dysgu hyn yn canolbwyntio'n briodol ar wella llythrennedd a rhifedd. Mae arfarniad yr awdurdod o effaith y grwpiau hyn eisoes wedi nodi gwelliannau mewn addysgu a dysgu ac yn safonau cyflawniad dysgwyr.

Troednodyn: Mae Sir Ddinbych, ynghyd â dau awdurdod arall yn arbrofi â'r Cynllun Sengl Integredig, sy'n anelu at ddod â holl gynlluniau corfforaethol yr awdurdod at ei gilydd mewn un ddogfen drosfwaol. Mae Cynllun Mawr Sir Ddinbych yn ddogfen strategaeth drosfwaol am y tair blynedd nesaf sy'n integreiddio'r Strategaeth Gymunedol, y cynllun Plant a Phobl Ifanc, y strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol ac a Lles.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r awdurdod yn parhau i ddatblygu trefniadau ar gyfer cydweithio a phartneriaeth â chynghorau cyfagos a sefydliadau eraill er mwyn sicrhau gwelliannau mewn deilliannau dysgu i blant a phobl ifanc.

Mae'r awdurdod wedi gwneud newidiadau sylweddol i weithio mewn partneriaeth ar draws pedair o'r prif bartneriaethau strategol, ac wedi datblygu ei gynllun sengl

integredig, sef Y Cynllun Mawr. O ganlyniad i waith ymgynghori eang, mae cefnogaeth a pherchnogaeth dda ar y Cynllun Mawr ar draws cymunedau, partneriaid strategol a'r awdurdod.

Mae'r Cynllun Mawr yn cynnwys ffocws penodol i wella prosesau a pherfformiad y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Mae'r awdurdod wedi cynnal adolygiadau trylwyr i nodi blaenoriaethau o bob un o'r pedwar cynllun hyn yn Y Cynllun Mawr. Un o'r rhain yw'r adolygiad perfformiad cynhwysfawr o Gynllun Plant a Phobl Ifanc 2008-2011 'Gwneud Gwahaniaeth'. Dangosodd hyn ddeilliannau o weithgareddau a ariannwyd gan grantiau a phrosiectau yn dda. Fodd bynnag, nid oedd digon o ffocws ar y dadansoddiad o ddeilliannau i nodi pa mor dda yr oedd gwaith y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc wedi cyfrannu at gyflawni ei amcanion strategol, nac ar gynllunio ar gyfer gwelliannau.

Mae Tîm Partneriaethau a Chymunedau newydd yn rhoi lefelau uchel o gymorth i brosesau'r Cynllun Mawr sy'n datblygu. Mae'r tîm wedi'i leoli yn yr uned Cynllunio a Pherfformiad Busnes, ac mae pennaeth yr uned yn aelod o'r Tîm Gweithredol Corfforaethol. Mae hyn yn dangos yn dda ymrwymiad yr awdurdod i'r broses newid, ac yn gwneud yn siŵr bod gwella perfformiad wrth wraidd y newidiadau.

Er Medi 2011, mae gan Sir Ddinbych a Chonwy un bwrdd gwasanaethau lleol ar y cyd. Mae'r bwrdd wedi comisiynu fframwaith rheoli perfformiad ar y cyd yn briodol ar gyfer Y Cynllun Mawr ac Un Conwy. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio'n dda gyda'r pum awdurdod arall yng Ngogledd Cymru i sefydlu'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol ar gyfer yr ardal. Mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn rhoi cyfeiriad clir iawn i'r gwaith hwn i wneud yn siŵr ei fod yn adlewyrchu eu blaenoriaeth i wella deilliannau ar gyfer dysgwyr a pharhau â'r cynnydd da y mae'r awdurdod eisoes wedi'i wneud.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r rheolaeth ariannol yn gadarn ac yn cael ei chefnogi'n dda gan gynllun tymor canolig a rhaglen effeithlonrwydd pedair blynedd. Mae hyn wedi galluogi'r cyngor i gyflawni arbedion effeithlonrwydd sylweddol a defnyddio refeniw ychwanegol a chyllid cyfalaf ar gyfer ei brif flaenoriaethau, yn cynnwys ei gynllun 'Moderneiddio Addysg'.

Mae'r awdurdod wedi ailstrwythuro gwasanaethau amrywiol yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys ei wasanaeth Gwella a Chynhwysiant, sydd wedi sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac wedi ail-ffocysu'r gwasanaeth i ymyrryd mewn ysgolion yn fwy effeithiol.

Mae'r awdurdod a'i ysgolion wedi gweithio'n dda i gynyddu lefel y dirprwyo i ysgolion a gwella gallu ysgolion i reoli adnoddau yn fwy effeithiol. Mae'r camau a gymerwyd yn cynnwys penodi rheolwyr cyllid ar gyfer clystyrau o ysgolion a dirprwyo cyllid a chyfrifoldeb ychwanegol i ysgolion am ymddeol yn gynnar a diswyddiadau. Mae cytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau a ddarperir i ysgolion wedi cael eu diwygio i roi gwybodaeth glir am ansawdd, cost a chyfrifoldeb. Er bod rhai o'r mesurau hyn yn rhai ddiweddar, mae arwyddion cynnar eu bod yn helpu ysgolion i wella materion hirsefydledig.

Mae’r awdurdod wedi cryfhau ei drefniadau i gynorthwyo ysgolion sydd mewn trafferthion ariannol ac wedi gwella effeithiolrwydd o ran monitro a rheoli cynlluniau adfer.  Gwnaed cynnydd da mewn datblygu trefniadau cynllunio’r gweithlu yn yr awdurdod ac ar gyfer ysgolion.

Mae’r awdurdod yn adolygu ac yn herio’i wasanaethau yn gadarn bob blwyddyn i sicrhau gwelliant a gwerth am arian.  Mae’r awdurdod hefyd wedi adolygu effeithiolrwydd a gwerth am arian ystod o brosiectau a datblygiadau penodol yn briodol.

Mae gwerth cyffredinol am arian mewn gwasanaethau addysg yn dda.  Mae’r cyllidebau fesul disgybl ar gyfer addysg gynradd ac uwchradd ychydig islaw cyfartaledd Cymru, er bod cyrhaeddiad yn y rhan fwyaf o gyfnodau allweddol uwchlaw’r cyfartaledd.

Mae’r awdurdod yn datblygu ei drefniadau i asesu deilliannau a gwerth am arian o wasanaethau a gomisiynir gan asiantaethau allanol, er nad yw’r rhain wedi cael eu rhoi ar waith ar gyfer yr holl wasanaethau o’r fath eto.

## Atodiad 1

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mererid Stone AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Iwan Roberts AEM | Arolygydd Tîm |
| Jane Taylor AEM | Arolygydd Tîm |
| Stephen Lamb AEM | Arolygydd Tîm |
| Huw Collins AEM | Arolygydd Tîm |
| Susan Roberts AEM | Arolygydd Tîm |
| Betsan O'Connor AEM | Arolygydd Tîm |
| Steve Martin | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Karl Napieralla | Arolygydd Cymheiriaid |
| Karen Evans | Enwebai |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

### Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, yn un deg pedwar oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 6 neu 7.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg mamiaith, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg mamiaith ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Arholiadau allanol yng nghyfnod allweddol 4 neu ôl-16

**Y dangosydd pwnc craidd** – fel yr uchod.

**Cymhwyster Lefel 1** - cyfwerth â chymhwyster TGAU, gradd D i G.

**Trothwy Lefel 1** – rhaid bod dysgwyr wedi ennill cyfres o gymwysterau sydd gyfwerth â phum cymhwyster, graddau D i G.

**Cymhwyster Lefel 2** - cyfwerth â chymhwyster TGAU, gradd A* i C.

**Trothwy Lefel 2** – rhaid bod dysgwyr wedi ennill cyfres o gymwysterau sydd gyfwerth â phum cymhwyster TGAU, gradd A* i C.

**Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg mamiaith a mathemateg** – rhaid bod dysgwyr wedi ennill cymwysterau lefel 2 mewn Cymraeg neu Saesneg mamiaith ac mewn mathemateg fel rhan o'u trothwy.

**Cymhwyster Lefel 3** - cyfwerth â chymhwyster Safon Uwch, gradd A* i C.

**Trothwy Lefel 3** – rhaid bod dysgwyr wedi ennill cyfres o gymwysterau sydd gyfwerth â dau gymhwyster Safon Uwch, gradd A* i E.

Mae'r **sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach** yn cynnwys yr holl gymwysterau allanol sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer eu defnyddio yng Nghymru ar yr oedran perthnasol – er enghraifft yn 16 neu'n 18 oed. I gyfrifo hyn, caiff cyfanswm y pwyntiau a enillir gan bob dysgwr yn y garfan ei rannu â nifer y dysgwyr.

Mae'r **sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i gapio** dim ond yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau ar gyfer pob disgybl o'r holl gymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer eu defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu'r rhai sydd â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran caffael Saesneg fel iaith ychwanegol.